

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 20^{ED} CHWEFROR 2019 YN FESTRI CAPEL, PANDY TUDUR

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan Einir Willaims (EW)

1.2 Presennol: Diane Roberts(DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW) a Gwynfor Davies (GD)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Lloyd Lewis (GLL), Elen H. Edwards (EHE), Clwyd Roberts , Gwyn Williams a Gwydion Jones

2 DATGAN DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO

6^{ed} Chwefror 2019

- 7.2 EW heb gael amser i gysylltu efo Iona Edwards eto – am wneud hyn erbyn cyfarfod nesaf.
- 8.1 Cywiro i waelod Allt Cefn Isaf
- 12. Materion Lleol

REW wedi cysylltu efo Dei Evans ynglyn â thorri'r gwair yn y mynwentydd – pris wedi ei dderbyn ganddo. Gan fod yr hysbyseb dal yn y Gadlas, penderfynwyd aros tan pwllgor nesaf i drafod y tender.

Coeden wedi disgyn – Dei wedi cynnig torri a chlirio'r goeden yn syth am gôst o £100 – anfoneb wedi ei chyflwyno heno. Dal angen trwsio'r canllaw (gweler 4 isod).

Cywiro manylion Ffordd Buarth Cerrig – y Cyngor wedi bod yno ers y cyfarfod diwethaf.

- AV heb gael bil gan Bob Roberts, Tŷ Capel – am ofyn iddo amdano eto erbyn cyfarfod nesaf.

Cynnigwyd fod y cofnod yn gywir fel arall gan REW ac eilwyd gan AV. Enlli Vaughan i yrru'r Cofnodion Cymraeg a Saesneg ymlaen i Arfon Parry i'w llwytho ar wefan Bro Cernyw a chopio EW mewn i'r ebost.

DR wedi cael galwad ffôn gan Llinos Roberts tua pythefnos yn ôl i ddweud fod drws hysbysfwrdd Llangernyw wedi dod i ffwrdd yn y gwynt. Dyfrig Howatson wedi ei drwsio ac wedi rhoi pren i'w ddal ynghau. Diolch i Llinos Roberts am hysbysu. Heb gael anfoneb gan Dyfrig Howatson eto, angen diolch iddo am wneud mor gyflym.

4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

Gwaith ffordd ar Allt Pandy Tudur – agored gyda'r nos tan y bore. Gwaith heb ei orffen eto.

Adroddod EW fod Menter a Busnes wedi penderfynu rhoi diwrnod i ffwrdd i wirfoddoli i'r staff ar 1^{af} o Fawrth - sef Diwrnod Gŵyl Dewi. Staff lleol Menter a Busnes wedi penderfynu casglu sbwriel yn Llangernyw a Llanfair TH. AV i gysylltu â Chadeirydd Merched y Wawr Llangernyw os oedd diddordeb ganddynt ymuno.

DR yn adrodd fod sbwriel yn cael eu adael yn aml iawn ger Capel Cefn Coch.

Angen trwsio'r canllaw ym mynwent Llangernyw cyn gynted a phosibl parthed risg iechyd a diogelwch i'r cyhoedd. REW i drefnu.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 Cais 0/45939. Adroddod EW fod cymal yn y cais gwreiddiol yn gofyn am arolwg ystlumod i ymchwilio pa mor debygol oedd i'r ystlumod gael eu taro gan y tyrbinau. Canlyniad yr adroddiad oedd fod y risg yn isel.

6 MATERION CYNGOR

6.1 Siarter Cyngorau Tref a Chymuned

EW yn teimlo'n gryf fod angen i bawb edrych ar hwn - gwaith cartref i'r cyngorwyr i gyd. DR yn holi os oedd rhywbeth wedi dod i fewn gan Un Llais am hwn. Dim wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Bydd angen trafod hyn yn fanylach - i'w roi ar agenda mis nesaf i drafod ymhellach.

6.2 Panel Annibynol Cymru a'r dâl cydnabyddiaeth

Wedi gweld gohebiaeth am hwn. Cyngor dal yn gytûn fod unigolion ddim am gymeryd tâl o £150. Agenda mis nesaf i drafod ymhellach.

6.3 Un Llais Cymru - gohebiaeth

Wedi cael gohebiaeth fod llawer o gynghorau ddim yn hapus efo'r gynyrchiolaeth. EW ddim yn credu ei fod yn ddoeth peidio bod yn aelodau. REW yn cefnogi hyn.

6.4 Cyflogaeth Clerc Cofnodion

EW heb gael amser i siarad efo Iona Edwards eto - am wneud hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

6.5 Sêr wag yn ward Llangernyw

EW wedi cael cyfeiriad ebost cyswllt yng Nghyngor Conwy gan GLL, EW i holi am hyn erbyn y cyfarfod nesaf sut i hysbysu - dilyn y drefn gywir i fynd ymlaen â hyn. Agenda mis nesaf.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Cais gan Menter Hiraethog

EW wedi derbyn cais yn dilyn cyfarfodydd Menter Hiraethog. Prosiect i gefnogi sioeau bach/treialon cŵn defaid i gael swyddog hwb/cydllynydd am dair blynedd. Byddai swyddog hwb yn cryfhau statws sioeau etc. Er mwyn cario ymlaen efo'r cais am grant, mae angen cyfraniad. Eirian Bodchwil yw'r swyddog prosiect sydd wedi rhoi cais i mewn am arian ond dim ffigwr penodol wedi ei ofyn amdano. Trafodwyd rhoi cais i mewn i Gronfa Bro Cernyw, ond ddim yn ffitio criteria lleol. Trafodwyd fod hwn yn cynnwys y sioeau lleol yn Llangernyw a Gwytherin a'r torri gwrych o bosibl. Trafodwyd os oedd y Cyngor am gyfrannu, neu cais i'r gronfa. Buasai'n help gwybod faint mae'n nhw'n yn gofyn amdano cyn gwneud penderfyniad. DR yn atgoffa o dan y *precept* - dim ond hyn a hyn sydd ar gael ar gyfer cyfraniadau. Trafodaeth am yr uchafswm o £100 fuasai'r Cyngor yn fodlon gyfrannu. EW i holi Eirian am swm i'w drafod. Trafodaeth bellach 'tasai Sioe Llangernyw/Gwytherin yn gwneud cais ar y cyd.

7.2 Yswiriant Cyngor Cymuned Llangernyw

GD yn rhoi manylion y cwmni yswiriant i EW. EW yn adrodd fod cynyrchiolydd o'r cwmni yswiriant mewn cyfarfod diweddar yn Llanfair ym Muallt yn dweud ei fod yn arbennigol i gynghorau. Y polisi yn adnewyddu ar y 1^{af} o Fehefin gyda Aviva drwy gwmni BHIB. Premiwm o £338.42 llynedd.

GD yn rhoi copi o'r dystysgrif *Employers' Liability* i EW i gadw ar ffeil fel Cadeirydd.

I'w drafod mis nesaf - bydd angen ebostio'r cwmni yswiriant i adio'r meinciau, cwt storfa ym Mynwent Gwytherin, blychau ffôn a'r arhosfan bws.

8 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

GLL wedi gyrru ei adroddiad mewn ebost o flaen llaw i'r Cadeirydd, fe'i darllenwyd i'r cynghorwyr:

"Cyngor Sir - Bydd y Cyngor llawn yn cyfarfod ddydd Iau nesaf i osod cyllideb 2019/20. Ar hyn o bryd, mae'r Cabinet wedi argymhell y canlynol - cynnydd o 9.6% i'r dreth cyngor, torri cyllid ysgolion 3.6% a Gofal Cymdeithasol 4%; a phob gwasanaeth arall, priffyrdd, hamdden, gwasanaethau addysg ayyb 7%. Y Cyngor llawn o 59 aelod fydd yn penderfynu naill ai derbyn hyn, gwrthod neu gynnig cyllideb Amgen. Rydw'i wedi treulio'r wythnosau diwethaf yn cyfarfod athrawon, pennaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion undeb, a dwi'n ymwybodol iawn y bydd y toriadau yn cael effaith sylweddol ar ein hysgolion a gwasanaethau eraill. Ond, yn anffodus mae Sir Conwy wedi cael setliad ariannol blynyddol gwael iawn gan Lywodraeth Cymru - hynny a phwysau cynyddol ar ein gwasanaethau gofal ac addysg, yn golygu ein bod yn wynebu diffyg o tua £15miliwn yn y gyllideb, a dyna pam bod yn raid i ni gymryd y camau anodd iawn a nodir uchod.

Yn lleol - yn dilyn fy adroddiad yn y cyfarfod dwethaf am fwriad i greu cynllun cludiant cymunedol yn yr ardal, mae Elen a'r Tîm Gwledig wedi llwyddo i gael cymhorthdal i dalu am astudiaeth dichonoldeb er mwyn asesu'r angen. Dwi'n credu y bydd gofyn am gyfraniad gan Gyngor Cymuned Bro Cernyw a Chyngor Cymuned Llanfair TH tuag at yr astudiaeth.

Bandeang Gwytherin - ddim wedi derbyn unrhyw ohebiaeth hyd yma gan un o drigolion yr ardal oedd am gwyno am ddiffyg darpariaeth yn ei chartref.

Yn anffodus wedi methu'r dyddiad olaf i gyfranu i'r Gadlas mis yma ond yn anelu at mis nesaf.

Cyfeiriad Ebost swyddog Cyngor Sir sy'n delio hefo Cyngorau Cymuned, precept, hysbysebu cynghorydd newydd ayyb - wedi ei anfon i EW.

Cyflwr y ffordd lawr o 4 Croesffordd i Langernyw. Wedi pasio hyn ymlaen i'r adran Briffyrdd.

Llythyr i berchennog yr Hen Efail yn nodi penderfyniad y Cyngor Cymuned ynglyn a'r 2 opsiwn. Wedi ei anfon.

Byddaf yn cysylltu a mudiadau a grwpiau eraill yn y pentref gyda'r 2 opsiwn maes o law.

Wedi hysbysu Lynda Kettle am benderfyniad y Cyngor Cymuned am yr Hen Efail."

9 CLUDIANT CYMUNEDOL

Conwy Cynhaliol - ynglyn a Chludiant Bro Cernyw i'w drafod yn y cyfarfod nesaf i'r cynghorwyr i gyd gael cyfle i edrych dros yr ohebiaeth.

10 GOHEBIAETH

Egni Co-op. Cynnig gan gwmni i osod solar panels ar doeau ysgolion etc. Dim amser i wneud cais cynllunio, penderfynu peidio gwneud dim a hwn.

Blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru - er gwybodaeth yn unig.

Ceisiadau am arian gan Bara Caws, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a Dawns i Bawb. Penderfynwyd gwrthod fel sydd wedi cael ei benderfynu yn y gorffennol.

11 BILIAU

Capel y Cwm am logi'r festri ar gyfer cyfarfod 6^{ed} o Chwefror 2019. Pasiwyd rhoi £10 o gyfraniad yn y cyfarfod hwnnw - sic i'w basio ymlaen i Menna Williams ar ran y Capel.

Dei Evans – torri'r goeden a'i chlirio ym Mynwent Llangernyw am £100. Cytunwyd i dalu.

12 MATERION LLEOL

DR - cais gan aelod o'r cyhoedd yn holi oes modd cael drych gyferbyn a mynedfa'r ffordd o gyfeiriad Hafodunos heibio'r siop *antiques* i'r ffordd fawr yn Llangernyw pan yn troi i'r dde i gyfeiriad Llanrwst. Trafodwyd fod hyn wedi ei godi o'r blaen a nid oedd Cyngor Conwy wedi caniatáu hyn. Ni fuasai'n bosibl rhoi drych ar adeiladau'r Eglwys. Cwestiwn hefyd wedi ei ofyn i DR os bydd baneri ayyb yn addurno'r pentref adeg yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Trafodwyd bydd addurniadau yn cael eu rhoi i fyny, bydd angen trafod hyn ymhellach mis nesaf.

Pant yn y ffordd gyferbyn a Chapel y Cwm wrth droi mewn i Glan Collen – Conwy ddim i weld yn poeni gormod am hyn er fod DR wedi cysylltu i hysbysu. DR i gysylltu a Sian Gwenllian yng Nghyngor Conwy a chopio GLL mewn i'r ebost er gwybodaeth iddo fynd a'r mater ymhellach.

Yr aelod o'r cyhoedd hefyd wedi holi os oedd y gwrych gyferbyn a Swm y Nant wedi cael ei dorri – DR heb gael amser i edrych ond am wneud erbyn y cyfarfod nesaf.

GD – dŵr yn llifo lawr allt Pandy Tudur – angen cadw llygad ar hyn pan fydd y gwaith tarmacio wedi ei orffen.

GD yn gofyn am y sefyllfa ynglyn â'r mandad banc. EW heb gael ateb gan y banc – dal i aros clywed.

13 CYFARFOD NESAF

2019 yng Nghanolfan Gwytherin am 7:30yh 27^{ain} Mawrth 2019

Agenda 27^{ain} Mawrth 2019

- Materion Arianol
- Tender torri gwair mynwentydd
- Siarter Cyngorau Tref a Chymuned
- Panel Annibynol Cymru a'r dâl cydnabyddiaeth
- Sêl wag yn ward Llangernyw
- Yswiriant Cyngor Cymuned Llangernyw
- Eisteddfod Genedlaethol

Cyfarfod yn dod i ben 9:05pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan